**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 14eg o hwefror am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr – Olwen Roberts (OR), Lisbeth James (LJ) John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), Dewi Ellis (DE), Sianelen Pleming, William Jones ar Cyng. Aled Jones (AJ).

1. **Ymddiheuriadau –** Gwyn D Roberts

2. **Hysbysebiadau y Cadeirydd –** Dymunodd Flwyddyn newydd dda i bawb a'u croesawu i'r cyfarfod. Cydymdeimlodd â Gwyn D Roberts ar ei brofedigaeth o golli ei chwaer ac eiliwyd hyn gan bawb a oedd yn bresennol.

3. **Datgan Diddordeb –** Neb

4. **Cofnodion**

4.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion y 13eg o Ragfyr, 2016 yn gywir ac eiliodd Griffith Jones

4.2 **Materion yn codi –**

4.2.1 **Dŵr yr Eifl –** Nid yw'r Cyngor Sir wedi cadarnhau perchnogaeth y man ple mae angen ymgymryd â gwelliannau eto. Cyflwynodd DE ffotograffau o'r safleoedd perthnasol ar ôl glaw trwm a datganodd ei bryder.

4.2.2 **Gor-yrru yn Llithfaen –** Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi cadarnhau fod unrhyw ddatrysiad phosib yn cael ei asesu ar sail tystiolaeth, gan hynny maent am drefnu fod peiriant mesur cyflymder yn cael ei osod ar y safle. Pe byddai tystiolaeth fod gôr yrru byddant yn cysylltu â'r heddlu gan ofyn iddynt roi sylw i'r mater gydag ystyriaeth i orfodi'r cyfyngiad cyflymder presennol.
Penderfynwyd ymchwilio i'r modd y mae arwyddion fflachio gor-yrru yn cael eu cyllido mewn pentrefi eraill. *Mae'r Cyng. Aled Jones am ymgymryd a'r gwaith hwn.* (Pentreuchaf, Nefyn ac Edern)
*Gofynwyd i'r Clerc gysyllu â'r Heddlu i ofyn am ddiweddariad ar y gweithgareddau atal gor-yrru a gynllunwyd.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

4.2.3 **Archwilio/Cyfrifon -** Nid yw adroddiadau'r Archwilwyr Allannol am 2014/15 a 2015/16 wedi dod i law eto. *Y Clerc i yrru neges e-bost i Archwilwyr Allanol 2014/15 yn gofyn iddynt gyflwyno eu hadroddiad i alluogi Archwilwyr Allanol 2015/16 i gwblhau eu hadroddioad hwythau*.
Mae John Roberts yn fodlon gweithredu fel Archwilwr Allannol. Penderfynwyd cynnig cytundeb 3 mlynedd iddo. *Y Clerc i ohebu ag o ar y sail a benderfynwyd.*
*Penderfynwyd adolygu a mabwysiadu Cynllun Cyhoeddiadau yng nghyfarfod mis Chwefror.*
Er i Menter yr Eifl brosesu archeb nid yw'r hysbysfwrdd ar gyfer y tu allan i'r Siop yn Llithfaen wedi'i osod. *Aelod am ddilyn y mater i fyny.*

4.2.4 **Mabwysiadu Rheolau Sefydlog Rheolau Ariannol Newydd –** Penderfynwyd penodi'r Clerc fel Swyddog Priodol y Cyngor Cymuned.

4.2.5 **Cynnal Llwybrau Cyhoeddus** – Perfynwyd nad yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno bod yn rhan o'r 'Trefniant ad-dalu cynnall llwybrau' gyda'r Cyngor Sir. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*

*5.* **Pennu Praesept 2017/18 –** Er gwybodaeth mae 385 o drigolion yn etholaeth Pistyll (Garn 30, Llithfaen 243 a Phistyll 112).
Ar ôl adolygu rhagamcanion y Clerc a'u diwygio i gydfynd â dymuniadau'r Aelodau cynigiodd Griffith Jones braesept o £8500.00 ar gyfer 2017/18. Eiliwyd y cynnig hwn gan John Owen a Gwilym Williams. Er i bawb gael cyfle ni chynigiwyd gwelliant. Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol ar braesept o £8500.00 ar gyfer 2017/18. *Y Clerc i hysbysebu'r Cyngor Sir.*

6. **Gwiriad Gwariant 2016/17 –** Gwiriwyd Rhagamcanion a Chyfrifion diwedaraf y Clerc i adroddiad y Banc a'u cael yn gywir gan:
a. Olwen Williams fel Cadeirydd
b. Griffith Jones fel Aelod nad oes a wnelo a'r trafodion ariannol.

7. **Canolfan Llithfaen** – Penderfynwyd trefnu i gynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Ganolfan gyfarfod gyda'r swyddog priodol o'r Cyngor i drafod yr opsiynau ymarferol a'r costau o ran prydles newydd. *SP i drefnu ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.*
Gellir rhoi ystyriaeth bellach yng nghyd destun penodi Cyfreithwyr pan y daw y tasgau i'w cyflawni yn eglur.
Cynrychiolwyr Cyngor Cymuned – John a Gwyn Y Ganolfan Morgan a Sian

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

8. **Mynwent Pistyll** – Gan ei bod bellach yn hysbys fod y Cyngor Cymuned yn berchen ar ran o'r fynwent penderfynwyd adael i'r Yswirwyr wybod. *Y Clerc i weithredu.*

9. **Ceisiadau Cynllunio** - Dim

10. **Gohebiaeth**

10.1 Un Llais Cymru - Hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol – Tynwyd sylw'r Aelodau at gwrs sy'n berthnasol i'r Cyngor. Nid oedd wybodaeth pellach a addawyd gan Un Llais wedi cyrraed mewn pryd i'w ystyried ymhellach. Gan hynny gohiriwyd y drafodaeth am y tro.

10.2 Tynwyd sylw'r Cyngor at rifyn diweddaraf 'Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru'

10.3 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau. Mae negeseuon e-bost Un Llais Cymru yn dwyieithog pob amser. Ambell waith mae'r negeseuon y maent yn eu hatodi yn uniaith Saesneg, hyd yn oed rhai gan swyddogion o Lywodraeth Cymru. *Gofynwyd i'r Clerc hysbysu Un Llais o aniddigrwydd y Cyngor am hyn.*

11. **Cyllid**

**CWBLHAWYD CYSONIADSD BANC YN LLWYDDIANNUS**

**Trafodion ar y gyfriflen banc ddiweddaraf**:

Derbyniadau: Dim

Taliadau: £200.00 – Roger Owen – ail doriad mynwent Pistyll
£100.00 - Cyflog Clerc
£17.07 – HM Revenue & Customs – Yswieriant Cenedlaethol 15/16

Balans cyfrif cyfredol : £2821.41
Balans Cyfrif cadw: £2743.15
Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -
£100.00 – Cyflog Clerc
£93.68 – Costau Gweinyddol Clerc (3 mis)

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 14eg o Fawrth am 7:30 y.h.**

**Wedi gweithredu ar y sylw am y gorlifo ar y ffordd o Lithfaen i Bentreuchaf trwy ddefnyddio disgresiwn y Cadeirydd. Dim cofnod wedi'i wneud.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347